

Mae'r cofnodion hyn yn destun cymeradwyaeth fel cofnod cywir yng nghyfarfod nesaf y
Cydbwyllgor Archifau Morgannwg

CYDBWYLLGOR ARCHIFAU MORGANNWG

Cofnodion Cyfarfod y Cydbwyllgor Archifau Morgannwg a gynhaliwyd yn Archifau
Morgannwg - Clos Parc Morgannwg, Lecwydd, Caerdydd ar Dydd Gwener, 13 Medi
2019 yn 2.00 pm.

Yn bresenol:

Aelodau: Y Cynghorydd Burnett, Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont
ar Ogwr
Y Cynghorydd Colbran, Cynor Bwrdeistref Sirol Merthyr
Tudful (Dirprwy Gadeirydd)
Y Cynghorydd Cowan, Cyngor Caerdydd
Y Cynghorydd Cunnah, Cyngor Caerdydd
Y Cynghorydd Henshaw, Cyngor Caerdydd
Y Cynghorydd Jarvie, Cyngor Bro Morgannwg
Y Cynghorydd K Jones, Cyngor Caerdydd
Y Cynghorydd Wendy Lewis, Cyngor Bwrdeistref Sirol
Rhondda Cynon Taf
Y Cynghorydd Robson, Cyngor Caerdydd
Y Cynghorydd Smith, Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar
Ogwr
K Thomas CVO, JP, Aelod Cyfetholedig

Swyddogion yn
bresennol: Susan Edwards, Archifau Morgannwg Cyngor Caerdydd
Sarah Messruther, Cyllid Caerdydd
Anita Batten
James Williams

CADEIRYDD

Fel y Cadeirydd, roedd y Cynghorydd Gwyn John wedi anfon ymddiheuriadau am y
cyfarfod. Cadeiriwyd y cyfarfod gan yr Is-gadeirydd, y Cynghorydd Malcolm Colbran.

11 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Gwyn John, Elaine George a Rhys
Lewis.

Hefyd derbyniwyd ymddiheuriadau gan Richard Grigg.

12 : DATGAN BUDDIANNAU

Ni chafwyd unrhyw rai.

13 : COFNODION

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Mehefin 2019 yn gofnod cywir a chawsant eu llofnodi gan y Cadeirydd.

14 : ADRODDIAD AR GYFER Y CYFNOD 1 MEHEFIN – 31 AWST 2019

Rhodddwyd i'r Aelodau ddiweddariad ar waith, ymweliadau a chyflawniadau'r gwasanaeth ar gyfer y cyfnod 1 Mehefin 2019 - 31 Awst 2019, Bwrdd Gwaith Amcanion, Atodiadau'n rhestru ychwanegiadau nodedig, gwybodaeth am gasgliadau a'r ymholiadau diddorol.

I grynhoi, esboniodd yr Archifydd, fel sydd bob amser yn digwydd yn yr Archifau, yr oedd chwarter yr haf yr un mor brysur o ran galw a gweithgarwch, yr oedd llawer o hyn yn ymwneud â dathliadau coffa canmlwyddiant y terfysgoedd hiliol yn ne Cymru. Fel yr arddangosfeydd ac ymgysylltu eraill yr adroddwyd amdanynt, mae llawer o hyn o ganlyniad i bartneriaethau a rhwydweithio hirdymor. Mae ceisiadau am gyllid grant yn cymryd amser ac ymdrech ond mae dyfalbarhad yn cael ei wobrwyo ac mae wedi bod yn bleser cefnogi llwyddiant mewn rhan rowndiau cystadleuol iawn yn y blynyddoedd diwethaf. Mae gwelliannau i'r catalogau'n cael eu gwneud yn gyflym ac mae mynediad at y catalogau'n gwella'n gyflym wrth i gofnodion ar Hyb yr Archif dyfu. Mae cadwraeth ddigidol yn flaenoriaeth ac mae hyfforddiant staff a'u cynnwys mewn datblygiadau cenedlaethol yn elfen baratoi hanfodol. Mae staff yn ymateb i'r galw newydd hwn sy'n tyfu gydag egni a hiwmor da, ni ellir gorbwysleisio eu harbenigedd a'u hymrwymiad.

Rhodddod y Cadeirydd gyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau a rhoi sylwadau:

Gofynnodd yr Aelodau sut mae'r gwaith paratoi ar gyfer symud i Office 365 yn mynd yn ei flaen ac a oedd TG yn barod ar gyfer hyn. Dywedwyd wrth yr Aelodau fod y symud wedi'i drefnu ar gyfer y penwythnos nesaf; roedd cyswllt agos gyda TG wedi'i gynnal ac o ganlyniad i ychydig iawn o weithio pell, roeddent yn hyderus y byddai'r symud yn ddidrafferth.

Gofynnodd yr Aelodau sut mae'r taliadau ar-lein yn mynd yn eu blaen a dywedwyd wrthynt eu bod yn mynd yn dda iawn, y cam nesaf oedd eu hyrwyddo a'u marchnata ynghyd â'r gwasanaeth ei hun.

PENDERFYNWYD: nodi'r adroddiad.

15 : ADRODDIAD MONITRO CYLLIDEB ARCHIFAU MORGANNWG 2019-2020

Rhodddwyd trosolwg i'r Aelodau o adroddiad Monitro Cyllideb 2019/20 a roddodd i'r Aelodau gyda'r union wariant ac incwm hyd at 31 Gorffennaf 2019 a'r alldro refeniw blwyddyn lawn a amcanestynnir ar gyfer y flwyddyn ariannol gyfredol 2019/20.

Amcanestynnir mai £685,306 yw'r gwariant blwyddyn lawn sy'n cynrychioli gorwariant o £3,306 yn erbyn cyllideb blynyddol o £654,000.

Rhodddwyd i'r Aelodau y rhesymau dros yr amrywiaethau fel y nodir yn yr adroddiad.

Nododd y Pwyllgor y materion a wynebir o ran biliau dŵr anghywir a ystyriwyd y dylid trosglwyddo'r mater hwn i'r adran gyfreithiol yng Nghyngor Caerdydd i ymchwilio.

Dywedwyd wrth y Pwyllgor y cytunwyd ar y datganiad cyfrifon gan SAC a byddai'n cael ei gyhoeddi ynghyd â datganiad cyfrifon y Cyngor ar ôl y cyfarfod.

Gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau ar y sefyllfa fonitro a cheisiodd yr Aelodau eglurhad ar nifer o faterion;

Gofynnodd yr Aelodau a oedd cyfleuster i gyfrannu at wasanaeth yr Archifau ar y wefan. Dywedodd y swyddogion nad oedd cyfleuster ar hyn o bryd ond bod cais wedi'i wneud i gyfleuster gael ei ychwanegu.

Nododd yr Aelodau'r bwlch enfawr yn y gyllideb o ganlyniad i'r mater NNDR, ac awgrymon nhw fod yr aelodau'n cysylltu â'u ACau lleol ar y mater.

PENDERFYNWYD – nodi'r sefyllfa alldro blwyddyn lawn a amcanestynnir ar gyfer 2019/20 fel y nodir yn yr adroddiad.

16 : RECRIWTIO ARCHIFYDD MORGANNWG

Dywedwyd wrth yr Aelodau fod Archifau Morgannwg cyfredol wedi nodi ei bwriad i ymddeol ar 31 Mawrth 2020. Mae Cytundeb 11 Ebrill 2006 a sefydlwyd y Cydbwyllgor yn dweud y bydd:

Y gwaith o reoli'r gwasanaeth archifau ar y cyd yn cael ei wneud ar ran y Pwyllgor gan Archifydd cymwys wedi'i benodi gan y Pwyllgor o bryd i'w gilydd.

Mae'r swydd gyda Chyngor Caerdydd ac wedi'i gwerthuso'n annibynnol trwy ddefnyddio methodoleg Gwerthuso HAY a benderfynodd y Gradd RhG2 sy'n ystod pwynt 5 o £46,552 i £56,233.

Dywedwyd wrth yr Aelodau y rhagwelwyd y byddai Cyngor Caerdydd yn goruchwyllo'r broses recriwtio ar gyfer y rôl hon ac y byddai'n cyflogi deiliad y swydd newydd hon.

Cynigiwyd y byddai'r 6 Awdurdod Lleol yn hysbysebu'r swydd ar eu gwefannau ar gyfer ymgeiswyr mewnol ac allanol, gan gyfeirio ymgeiswyr i wefan Cyngor Caerdydd er mwyn cwblhau ffurflen gais. Yn ogystal, byddai hysbyseb yn cael ei rhoi ar People Exchange Cymru, sy'n wefan sy'n hysbysebu rolau yn y sector cyhoeddus yng Nghymru ac yn cael ei chylchredeg trwy rwydweithiau proffesiynol. Nid oedd unrhyw gost am hyn.

Gan fod angen denu ymgeiswyr o gronfa mor eang â phosibl, byddai hefyd yn cael ei hysbysebu ar wefan y Guardian am ddim o ganlyniad i drefniant rhwng Cyngor Caerdydd a'r Guardian.

I sicrhau dilyniant, byddai'r swydd yn cael ei hysbysebu ym mis Medi 2019 gyda'r bwriad o gwblhau'r broses recriwtio erbyn dechrau mis Rhagfyr. Bydd hyn yn caniatáu amser i gael geirdaon ar gyfer yr ymgeisydd llwyddiannus ac i roi cyfnod rhybudd o dri mis.

Dywedwyd wrth yr Aelodau, gan fod Archifydd Morgannwg yn adrodd i Gyfarwyddwr Llywodraethu a Gwasanaethau Cyfreithiol Cyngor Caerdydd (Swyddog Monitro statudol y Cyngor), y dylai'r Pwyllgor Penodi Aelodau benodi'r archifydd.

Ar y sail hon, argymhellwyd bod Pwyllgor Penodi'n dewis o aelodau'r Cydbwyllgor, gydag o leiaf tri aelod ond hyd at 6 aelod, gydag uchafswm o un o bob awdurdod sy'n cyfrannu'n cael ei sefydlu. Is-bwyllgor y Cydbwyllgor fyddai hyn. Nid yw cymesuredd gwleidyddol yn berthnasol, ond efallai y byddai'r Pwyllgor am ystyried cael cynrychiolaeth drawsbleidiol. Nodwyd y cylch gorchwyl ar gyfer y Pwyllgor Penodi yn Atodiad C yr adroddiad. Ar ôl ffurfio'r Pwyllgor Penodi, byddai gofyniad iddo gynnwys yr un aelodau, ac eithrio mewn amgylchiadau eithriadol, ar bob cam o'r broses.

Amlinellwyd y broses recriwtio gan gynnwys amserlenni ac argymhellion yr adroddiad i'r Aelodau.

Rhoddodd y Cadeirydd gyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau a rhoi sylwadau:

Gofynnodd yr Aelodau a yw'r Panel Penodi'n gwneud y penderfyniad terfynol a dywedwyd wrthynt fod hyn yn gywir.

Gofynnodd yr Aelodau a ddylai'r hysbyseb nodi bod angen nifer penodol o flynyddoedd o brofiad. Esboniodd y swyddogion nad oedd hyn yn bosibl o ganlyniad i wahaniaethu ar sail oedran ac y gallai ddiystyru ymgeiswyr iau; ond mae'r manyleb person yn cyfeirio at y ffaith bod angen profiad proffesiynol sylweddol.

PENDERFYNWYD:

- I. Cymeradwyo'r broses hysbysebu a recriwtio ar gyfer swydd Archifydd Morgannwg.
- II. Ystyried a chytuno ar gynnwys y Disgrifiad Swydd, y Manyleb Person a'r Hysbyseb, a nodi ystod y gyflog
- III. Cymeradwyo sefydlu Pwyllgor Penodi fel is-bwyllgor y Cydbwyllgor yn unol â'r cylch gorchwyl a nodir yn Atodiad C.
- IV. Cytuno y byddai'r Cynghorydd John, Burnett, Robson a Colbran yn aelodau cychwynnol o'r Pwyllgor Penodi.
- V. Y byddai cynrychiolwyr o RCT a Chaerffili yn cael eu ceisio, ond os nad yw awdurdod lleol am fod â lle ar y panel wedyn cytunwyd y gallai Caerdydd fod â 2 gynrychiolydd.
- VI. Penderfynu ar gyfansoddiad rhan swyddogion yn y broses recriwtio, a dyrannu rôl y prif swyddog i Gyfarwyddwr Llywodraethu a Gwasanaethau Cyfreithiol.
- VII. Cytuno ar yr amserlen fynegol ar gyfer y broses recriwtio a dethol.

17 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

13 Rhagfyr 2019 am 2.00pm

Daeth y cyfarfod i ben am 3.45 pm